

P-05-1012 Therapi mewn siambr ocsigen i gleifion ffibrmyalgia wedi'i hariannu drwy'r GIG

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020

Cyfeirnod: RS20/13682

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: P-05-1012

Teitl y ddeiseb: Therapi mewn siambr ocsigen i gleifion ffibrmyalgia wedi'i hariannu drwy'r GIG

Testun y ddeiseb: Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu therapi mewn siambr ocsigen i ddiodefwrwr Fibromyalgia, wedi'i hariannu drwy'r GIG.

Mae gwaith ymchwil wedi'i wneud i therapi mewn siambr ocsigen a dangoswyd ei fod yn lleihau symptomau ffibrmyalgia ac yn helpu pobl i ddod yn rhydd o feddyginiaeth, sydd, er y gall meddyginiaeth helpu, yn gallu cynnwys sgil-ffeithiau annymunol.

Mae'r astudiaethau hyn yn cynnwys

<https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0228149>

https://ard.bmj.com/content/77/Suppl_2/461.3

Mae'r astudiaethau hyn yn dangos y gallai'r driniaeth hon helpu llawer o ddiodefwrwr fel fi i fyw bywyd llawnach ac iachach ac fe



hoffem ni, sydd wedi llofnodi isod, gael y cyfle i gael y driniaeth hon.

Cefndir

Fibromyalgia

Yn ôl GIG 111 Cymru, mae Fibromyalgia, a elwir hefyd yn syndrom ffibrmyalgia (FMS), yn gyflwr hirdymor sy'n achosi poen ledled y corff. Yn ogystal â phoen eang, efallai y bydd gan bobl â ffibrmyalgia hefyd:

- fwy o sensitifrwydd i boen;
- blinder eithafol (llesgedd);
- stiffwrwydd y cyhyrau;
- anhawster cysgu;
- problemau gyda phrosesau meddwl, megis y cof a chanolbwytio;
- cur pen;
- syndrom coluddyn llidus, cyflwr treuliad sy'n achosi poen a chwyddo yn y stumog;

Cynghorir unigolion sy'n credu y gallai fod ganddynt ffibrmyalgia i ymweld â meddyg teulu, er y gall fod yn gyflwr anodd i wneud diagnosis ohono. Nid oes prawf penodol ar gyfer y cyflwr, a gall y symptomau fod yn debyg i nifer o gyflyrau eraill. Nid yw union achos ffibrmyalgia yn hysbys, ond credir ei fod yn gysylltiedig â lefelau annormal o gemegion penodol yn yr ymennydd a newid yn y ffordd y mae'r system nerfol ganolog yn prosesu negeseuon poen a gaiff eu cludo o amgylch y corff.

Mae triniaeth ar gael i leddfu rhai o'i symptomau, er eu bod yn annhebygol o ddiflannu'n llwyr. Mae triniaeth yn tueddu i fod yn gyfuniad o:

- addysgu cleifion;
- meddyginiaeth, megis gwrthiselyddion a phoenladdwyr;
- therapïau siarad, fel therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) a chwnsela;
- newidiadau i ffordd o fyw, megis rhaglenni ymarfer corff a thechnegau ymlacio.

Mae **Fibromyalgia Action UK** yn adrodd bod y cyflwr i'w weld mewn tua 2% o'r boblogaeth, a'i fod yn effeithio ar ddynion, menywod a phlant o bob oed a hil a lefel economaidd, a bod tua 14,000 o bobl yn cael diagnosis yn y DU bob blwyddyn. Gall symptomau ddechrau ar unrhyw oedran, ond yn bennaf rhwng 20 a 60 oed, ac mae'n effeithio ar fenywod yn fwy na dynion ar gymhareb o 9 i 1.

Triniaeth Ocsigen Hyperbarig (HBOT)

Mae **Triniaeth Ocsigen Hyperbarig (HBOT)** yn golygu anadlu ocsigen pur ar bwysau uwch na pwhysau atmosfferig mewn siambr gaeedig am **gyfnod o 60 i 90 munud fel arfer**. Mae'r broses hon yn peri i ocsigen gael ei amsugno gan holl hylifau'r corff a chan bob cell a meinwe yn y corff, hyd yn oed y rhannau hynny y mae'r llif wedi'i gyfyngu neu ei atal.

Tystiolaeth gyhoeddedig

Mae'r ddeiseb wreiddiol yn cynnwys lincs i ddwy astudiaeth:

- **Hyperbaric Oxygen Therapy Can Diminish Fibromyalgia Syndrome – Prospective Clinical Trial**, (Efrati et al, Plos One, 2015). Mae'r astudiaeth o 60 o gleifion benywaidd yn darparu dystiolaeth y gall HBOT wella symptomau ac ansawdd bywyd cleifion FMS;
- **THU0512 Hyperbaric oxygen therapy (HBOT) treatment in fibromyalgia**, (Muratore et al, Annals of the Rheumatic Diseases, Mehefin 2018). Roedd hon yn pwysleisio bod eu data o 33 o gleifion benywaidd yn cadarnhau effeithiolrwydd HBOT wrth drin ffibromyalgia, ond roedd angen astudiaethau pellach 'i ddeall hyd yr effaith glinigol.

Mae'n bosibl canfod astudiaethau ymchwil cyhoeddedig eraill; mae rhai'n dadlau dros fudd HBOT wrth drin ffibromyalgia, ond mae eraill hefyd yn nodi meysydd i'w hastudio ymhellach:

- **Hyperbaric oxygen treatment of fibromyalgia: a prospective observational clinical study**, (Atzeni et al, in Clinical and Experimental Rheumatology, Ionawr-Chwefror 2019). Gwerthusodd yr astudiaeth hon o 32 o gleifion effeithiolrwydd a diogelwch HBOT ar ôl llai o sesiynau nag a ddefnyddir yn gyffredinol. Roedd y canfyddiadau'n cefnogi'r farn bod HBOT yn ffordd

effeithiol, gyflym a diogel o drin symptomau amrywiol ffibrmyalgia;

- Comparative study of the effectiveness of a low-pressure hyperbaric oxygen treatment and physical exercise in women with fibromyalgia: randomized clinical trial, (Izquierdo-Alventosa et al, Therapeutic Advances in Musculoskeletal Disease, Mehefin 2020). Dangosodd astudiaeth o 49 o gleifion fod HBOT pwysedd isel ac ymarfer corff yn gwella trothwy poen yn ymwneud â phwysedd, gwytnwch a'r gallu i weithredu, yn ogystal â pherfformiad corfforol;
- Mae Ozone therapy in 65 patients with fibromyalgia: an effective therapy, (Tirelli et al, European Review for Medical and Pharmacological Sciences, 2019) yn nodi ei bod yn bosibl cynnig therapi osôn i gleifion â ffibrmyalgia nad ydynt yn cael canlyniadau digonol o driniaethau eraill sydd ar gael;
- Mae Hyperbaric oxygen and aerobic exercise in the long-term treatment of fibromyalgia: A narrative review, (El-Shewy et al, Biomedicine and Pharmacotherapy, Ionawr 2019,) yn adrodd ei bod yn hysbys bod gan HBOT ac ymarfer aerobig y corff rôl addawol o ran rheoli poen cronig ond mae'n nodi bod pryderon diogelwch ynghylch y difrod ocsideiddio a all ddilyn HBOT, ac mae'n galw am astudiaethau pellach a threialon clinigol;
- Hyperbaric Oxygen Therapy for the Treatment of Chronic Pain: A Review of Clinical Effectiveness and Cost-Effectiveness, (Pejic a Frey, Canadian Agency for Drugs and Technologies in Health; Medi 2018). Roedd hwn yn awgrymu bod yr ymchwil yn yn darparu tystiolaeth i awgrymu bod dau fis o HBOT yn codi trothwyon poen, gallu corfforol, ac ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ynghylch cost-ffeithiolrwydd HBOT ar gyfer trin poen cyhyrsgerbydol cronig.

Nid yw hyn yn cynrychioli adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth gyhoeddedig, sy'n ymddangos fel pe bai iddo sail dystiolaeth gyfyngedig ond sy'n dod i'r amlwg. Ni fu'n bosibl canfod unrhyw dystiolaeth gyhoeddedig ar ffibrmyalgia a HBOT gan y Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), ac nid yw ychwaith wedi'i gynnwys yn Llyfrgell Cochrane.

Yn dilyn ymgyngoriad yn 2018 ar Adolygu Gwasanaethau Ocsigen Hyperbarig cyhoeddodd GIG Lloegr sawl Polisi Comisiynu newydd ym

is Gorffennaf 2018 ar gyfer HBOT ac mae wedi cadarnhau cyllid rheolaidd ar gyfer y ddau gyflwyr brys canlynol yn unig:

- Salwch datgywasgiad (DCI);
- Emboledd Aer / Nwy.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn dibynnu ar gyngor arbenigol NICE ac AWMSG, a dywed:

Nid yw canllawiau NICE yn argymhell therapi ocsigen fel defnydd effeithiol o adnoddau'r GIG; ac nid ydym ychwaith yn ymwybodol o'r dystiolaeth o effeithiolrwydd therapi ocsigen i bobl sy'n byw gyda ffibrmyalgia.

Mae'r ymateb hefyd yn cynnwys canllawiau gan Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru sy'n amlinellu'r cyflyrau y dylid darparu HBOT ar eu cyfer, sy'n cynnwys:

- **Dangosyddion brys:**
 - Salwch datgywasgiad (DCI);
 - Meddwdod carbon monocsid;
 - Heintiau anaerobig neu feinwe meddal cymysg sy'n bygwth bywyd;
 - Anafiadau gwasgfa ac isgemia trawmatig eraill sy'n bygwth cylchrediad.
- **Dangosyddion dewisol:**
 - Wlserau traed diabetig;
 - Osteoradionecrosis (ORN) y pen a'r gwddf;
 - Atal osteoradionecrosis ar gyfer llawdriniaeth ar y pen a'r gwddf;
 - Difrod ymbelydredd meinwe meddal i'r meinwe;
 - Osteomyelitis atblygol cronig.

Mae WHSSC hefyd wedi cyhoeddi fersiwn fanylach o'r canllawiau ar gyfer HBOT (Gorffennaf 2019). Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi ymhellach:

... bod y rhan fwyaf o'r adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru bellach wedi'u hanelu at fynd i'r afael â Covid-19 ac atal ail don yn y dyfodol. Felly, gobeithio eich bod yn deall na allwn, ar hyn o bryd, ystyried yr ymchwiliad pellach i therapi ocsigen ar gyfer ffibrmyalgia.

Fodd bynnag, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi, lle nad yw meddyginiaethau ar gael fel mater o drefn o fewn GIG Cymru, y gall clinigwyr wneud cais am y feddyginiaeth ar ran eu cleifion drwy wneud **Cais Unigol am Gyllid Cleifion (IPFR)**.... Byddai angen i'r clinigwyr ddarparu digon o dystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd y driniaeth arfaethedig

Yn gynharach yn 2020 **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad** yn nodi ei bwriad i uno tri grŵp cynghori presennol (Poen Parhaus, Arthritis, a Syndrom Blinder Cronig/ME a ffibrmyalgia) yn un grŵp cynghori. Byddai hwn yn adrodd i'r Prif Swyddog Meddygol ar faterion sy'n gyffredin i'r cyflyrau, yn ogystal â materion arbennig sy'n ymwneud â chyflyrau penodol. Y gobaith oedd y byddai'r grŵp newydd yn cael ei sefydlu erbyn mis Ebrill 2020, er y gallai coronafeirws fod wedi ymyrryd yn ei waith. Fodd bynnag, mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb hon yn nodi:

Pan fydd gwasanaethau arferol yn gallu ailddechrau, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i barhau i ystyried y driniaeth a'r cymorth mwyaf priodol i gleifion ffibrmyalgia.